Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl238

**Amseru:** Arferol


**Teitl:** Dosbarthu Taflen Praesept Heddlu'r Dreth Gyngor 2022/23

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn, yn gyfrifol am osod lefel Praesept yr Heddlu ar gyfer ardal Dyfed-Powys. Tynnodd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2013 y rhwymedigaeth gyfreithiol i gynnwys copi papur o'r Llyfryn Dreth Gyngor a'r daflen Heddlu gyda'r Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Gyngor blynyddol. Y gofyniad presennol yw cyfeirio'r cyhoedd at y wefan lle gellir cael hyd i'r llyfryn/daflen, a dim ond rhoi copi caled os gwnaed cais amdano gan y cwsmer.
Mae Swyddfa'r Comisiynydd (SCHTh) yn flaenorol wedi dosbarthu copïau papur o Daflen Praesept Heddlu'r Dreth Gyngor i breswylwyr ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, er mwyn rhoi gwybod iddynt am y rhesymu y tu ôl i benderfyniad blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrth osod lefel y praesept.
Wrth gynllunio ar gyfer taflen 2022/23, mae SCHTh wedi cysylltu gyda chydweithwyr yn SCHTh Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru; ac y mae pob un ohonynt wedi cadarnhau nad ydynt bellach yn argraffu copïau caled o'u taflenni. Cysylltodd SCHTh â phob Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cytuno i gyfeirio eu preswylwyr at daflen praesept heddlu'r dreth gyngor ar-lein. Rhennir y ddolen i'r daflen ar wefannau'r Awdurdodau Lleol a/neu gopïau papur o'r llyfryn treth gyngor, yn ogystal â thrwy'n gwefan a chyfryngau cymdeithasol.
Byddai cyhoeddi yn electronig hefyd yn caniatáu i Swyddfa'r Comisiynydd wneud arbediad blynyddol sylweddol mewn costau argraffu a dosbarthu.

**Argymhelliad:**
Cyhoeddi a rhannu Taflen Treth Gyngor 2022-23 yn electronig, â chopïau caled ar gael ar gais.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.
Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** 

**Dyddiad: 21.10.21**